# Dwed wrth dy Dduw

Philipiaid 4:11-14

Geiriau: Cass Meurig
Tôn: Paid â Deud (tradd)




2. Os mai poenus yw'th sefyllfa
   Dwed wrth dy Dduw,
   Yn ei freichiau mae dy noddfa,
   Dwed wrth dy Dduw.
   Fe gei gryfder i'w wynebu
   Dwed wrth dy Dduw,
   Gan yr hwn sydd yn dy nerthu,
   Dwed wrth dy Dduw.

3. Os wyt angen gwneud dy gyffes
   Dwed wrth dy Dduw,
   Fe wnaiff wrando ar dy hanes,
   Dwed wrth dy Dduw.
   Deliodd Iesu â'n pechodau
   Dwed wrth dy Dduw,
   Cei faddeuant drwy ei angau
   Dwed wrth dy Dduw.

4. Ac os wyt uwchben dy ddigon
   Dwed wrth dy Dduw,
   Ganddo ef y daw dy roddion
   Dwed wrth dy Dduw.
   Os wyt drist neu os wyt ddedwydd
   Dwed wrth dy Dduw,
   Ynddo Ef mae'r gwir lawenydd
   Dwed wrth dy Dduw.